SYNIADAU ADDYSGU

Iaith

- Ysgrifennwch lythyr at y pennaeth yn gofyn am ganiatad i'r dosbarth gynnal digwyddiad codi arian ar gyfer BBC Plant Mewn Angen.
- Ysgrifennwch adroddiad papur newydd am BBC Plant Mewn Angen. Defnyddiwch ein **Fframiau Ysgrifennu Templedi Papur Newydd** i gefnogi gweithgareddau ysgrifennu eich disgyblion.
- Gall y plant ddefnyddio **Templed Gwahoddiad Twinkl** er mwyn dylunio gwahoddiad yn gofyn i Pudsey ddod i'w digwyddiad codi arian i BBC Plant Mewn Angen.

Mathemateg

- Cyfrifwch y cyfansymiau gwahanol o arian a all eich dosbarth godi ar gyfer BBC Plant Mewn Angen. Er enghraifft, faint fyddai'r dosbarth yn ei godi os byddai pob plentyn yn rhoi £1? £2? Gall disgyblion mwy abl gyfrifo cyfansymiau fel £1.50 y plentyn. Gall disgyblion llai abl gyfrifo faint fyddai grŵp llai o blant yn codi. Gellir defnyddio darnau o arian er mwyn ei wneud yn weithgaredd ymarferol.
- • Crëwch broblemau geiriol am ddigwyddiadau codi arian. Er enghraifft, mae cacennau yn costio 10c yr un, faint o arian fyddai'n cael ei godi ar gyfer BBC Plant Mewn Angen os bydd _____ o gacennau yn cael eu gwerthu. Gall y plant hefyd greu eu problemau geiriol eu hunain.
- Gall y plant fynd ar helfa smotiau o gwmpas yr ysgol. Faint o smotiau allan nhw ddarganfod?

Gwyddoniaeth

- Dysgwch am berthnasau Pudsey gyda Phŵerbwynt Ffotograffau Eirth a Chardiau Ffeithiau am Eirth Twinkl. Darganfyddwch enwau'r gwahanol fathau o eirth a lle maen nhw yn byw.

Celf/Dylunio a Thechnoleg

- Dyluniwch boster yn annog pobl i roi arian ar gyfer BBC Plant Mewn Angen.
- Dyluniwch fandana newydd i Pudsey.
- Pobwch gacennau i werthu mewn digwyddiad codi arian ar gyfer BBC Plant Mewn Angen. Beth am ddefnyddio ein **Sut i Wneud Cacennau Crispi.**

Hanes

- Dysgwch am sut ddechreuodd BBC Plant Mewn Angen fan hyn – **BBC Children in Need**.

Daearyddiaeth

- Dysgwch am brosiectau BBC Plant Mewn Angen ledled y Deyrnas Unedig fan hyn – **BBC Children in Need projects**. Gall y plant chwilio am y llefydd hyn ar **Fap o'r Deyrnas Unedig**.

Ymarfer Corff

- Trefnwch ddigwyddiadau noddedig, megis faint o weithiau mae plant yn gallu neidio dros raff sgipio, neu faint o weithiau maen nhw'n gallu troi cylch hwla, neu hyd yn oed daith gerdded o gwmpas y maes chwarae.

Cerddoriaeth

- Gwrandewch ar rai o'r caneuon sydd wedi cael eu cysylltu â BBC Plant Mewn Angen. Mae enghreifftiau yn cynnwys 'Children in Need Medley' gan Animated All Star Band Peter Kay. 'Perfect Day' gan Lou Reed ac artistiaid amrywiol. 'If you want help' gan Gôr BBC Plant Mewn Angen neu 'Wake Me Up' gan Gôr All Star Gareth Malone. Gall y plant drafod pa ganeuon roedden nhw'n eu hoffi a pham.

TGCh

- Gall y plant greu cyflwyniad pŵerbwynt sy'n esbonio beth yw BBC Plant Mewn Angen neu gyflwyniad sy'n egluro sut maen nhw wedi bod yn codi arian ar gyfer BBC Plant Mewn Angen.
- Defnyddiwch raglen baent i greu llun o Pudsey.

© BBC 2007 Reg. charity England & Wales no. 802052 and Scotland no. SC039557